

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Medi'r 10fed, 2018**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Eleri Jones a Huw Roberts. Wrth ymddiheuro am ei absenoldeb, cyflwynodd Huw Roberts ei ymddiswyddiad o'r Cyngor. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad a chyfarwyddwyd y Clerc i gymryd y camau priodol i lenwi'r sedd.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2il, 2018.
5. **Eglwys Santes Gwawr:** Astudiwyd y cynlluniau gan bensaer y perchnogion ar gyfer gwneud gwelliannau i'r tŵr, a chytunwyd i'r cais i weithwyr wneud defnydd o'r tir tu nol i'r Eglwys - yn amodol na fyddant yn amharu ar feddau. Mae hawl gan y perchennog i dramwyo ar hyd y llwybr at yr adeilad.
6. Nid oedd Adroddiad gan y Cynghorydd Sir wedi dod i law.
7. **Materion cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol. Cytunwyd i gofrestru gyda'r ICO.
8. Cytunwyd i brynu Hysbysfwrdd i'r Cyngor i'w ddefnyddio ar y cyd gyda'r Capel. Cynigwyd gosod "Glyn a Rhos" fel enw ar yr hysbysfwrdd i ddynodi wardiau Cwm y Glyn a Rhosygwaliau, a chytunwyd i ofyn i aelodau'r Capel am eu barn. Cytunwyd i ofyn i'r hysbysfwrdd gael ei anfon i gyfeiriad y Cynghorydd Gwyn Roberts er mwyn gallu symud ymlaen i'w osod yn ei le.
9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Mynegwyd pryderon fod gweryllwyr yn aros dros nos ym maes parcio Parc Cenedlaethol Eryri a bod rhai ohonynt yn annymunol a swnllyd iawn ac yn gwrthod i bobl leol gyrraedd at eu biniau. Cytunwyd i anfon am hyn at swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri.
Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Sir dynnu sylw swyddogion at y ddau dwll o dan Bryn Hynod, lle mae'r dŵr yn cronni. Hefyd mae gordyfiant bob ochr i bont Rhosygwaliau yn amharu ar welededd ac yn achosi perygl i ddefnyddwyr y ffordd.
Mae angen sylw i'r ffordd wrth yr hen gwt cwch ar ffordd Llangywer.
10. Ystyriwyd Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru a derbyniwyd gyda diolch cynnig Cyngor Cymuned Llanuwchllyn i ymuno gyda hwy mewn hyfforddiant ar nos Fawrth 6/11/18 am 6.30 yn Ysgoldy Llanuwchllyn. Fe fydd hyn yn disodli cyfarfod arferol o'r Cyngor, ond gellir trafod materion brys ar y noson neu gytuno ar geisiadau cynllunio trwy e-bost/ffôn.

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)

11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

12. **Ystyried Gohebiaeth:**

- i. Parc Cenedlaethol Eryri:
 - a. Cymeradwywyd cais NP5/70/LB9J – modurdy newydd to serth gorffeniad llechi, waliau cerrig gydag edrychiad gogleddol o goed derw cyffelyb i'r stablau ym Mhlas Gywair
 - b. Cymeradwywyd cais NP5/70/LB7T - Gosod unedau tewychu ar wal allanol Fach Ddeiliog (Bala Lake Hotel)
- ii. Cytunwyd i ofyn am lenwi biniau halen y gymuned UN WAITH yn ystod y tymor hwn.
- iii. Nodwyd derbyn Adroddiad Blyneddol Cynefin.
- iv. Ymgynghoriad cyhoeddus ar hedfan isel: cytunwyd i anfon at Liz Saville Roberts i ddweud fod cynnydd wedi bod yn ddiweddar a bod Carafanwyr a thwristiaid wedi cwyno amdanynt yn lleol. Mae pryder fod nifer o awyrennau yn dod o wahanol gyfeiriadau ac yn anelu un ar ôl y llall am Y Bala.
- v. Nodwyd derbyn dogfen Ymgynghori Cynllun Eryri, Parc Cenedlaethol Eryri.
- vi. Nodwyd derbyn dyddiadau cyfarfodydd cyswllt Parc/Cynghorau Cymuned.
- vii. Cytunodd y Cadeirydd i fynychu cyfarfod 12/9/18* i drafod y penwythnos digwyddiadau yng Ngorffennaf. Roedd cwynion niferus gan drigolion fod digwyddiadau'r penwythnos wedi amharu ar fwyniant pobl leol ac ymwelwyr. Roedd pryder am allu'r gwasanaethau brys i gyrraedd ardal Llangywer oherwydd bod y ffordd wedi ei chau gan drafnidiaeth. Roedd y gweithgareddau wedi amharu ar amaethwyr gyda'r cynhaeaf gwair gan nad oedd yn bosib symud peiriannau ar hyd y ffyrdd. Cytunwyd i anfon barn y Cyngor at Iolo Tegid, Asiantaeth Cefnffyrdd.
(* Gohiriwyd y cyfarfod ar fyr rybudd.)
- viii. Ymholiad o Ganada – cytunwyd i ofyn am fwy o fanylion.

Amser gorffen: 9.30pm

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)